| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **Rheoliadau Da byw (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 14 Tachwedd 2018* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 27 Tachwedd 20186 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Yr wythnos yn dechrau 26 Tachwedd 2018 |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 29 Tachwedd 2018 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 22 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Y weithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1) o, a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod deddfwriaeth yr UE ar adnabod a chofrestru da byw yn parhau i fod yn weithredol yn y DU ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi bod y llywodraeth yn dymuno cadw'r safon uchel presennol o'r gallu i olrhain a ddarperir ar ei gyfer gan ddeddfwriaeth y DU, ac sy'n ategu gwaith rheoli afiechydon effeithiol.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 16 Tachwedd 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.
Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio am gynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.